


# WYTHNOS NATUR CYMRU

## 29 Mehefin - 7 Gorffennaf 2024

## DATHLU NATUR


Pecyn Briffio Grwpiau Cymunedol

Dilynwch ni

#WythnosNaturCymru

# CROESO I WYTHNOS NATUR CYMRU 2024!

## Croeso i Wythnos Natur Cymru, dathliad blynyddol o fyd natur sy'n arddangos cynefinoedd a rhywogaethau gwych Cymru.



Mae'n wythnos canolbwyntio ar fywyd gwyllt Cymru, ond dim ond gyda chymorth llu o sefydliadau ac unigolion y gall lwyddo.

Mae Wythnos Natur Cymru'n annog cynifer o grwpiau â phosibl i gymryd rhan ac arddangos a dathlu gweithredu lleol mewn mannau gwyrdd cymunedol ledled Cymru.

Mae Wythnos Natur Cymru yn gyfle i ledaenu'r gair am y camau y mae eich grŵp cymunedol, ysgol, grŵp ffydd neu fusnes yn eu cymryd i ddiogelu ein natur werthfawr yng Nghymru. Drwy arddangos eich prosiect a dweud wrth bobl am y planhigion a'r anifeiliaid rydych chi'n dod ar eu traws, byddwch yn helpu i wneud byd natur yn rhan annatod o'n trefi, ein dinasoedd a'n haneddiadau ni.


Drwy gymryd rhan yn Wythnos Natur Cymru, byddwch yn ymuno â channoedd o bobl a grwpiau o'r un anian, pob un yn dathlu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd gwych yng Nghymru.

Mae'r pecyn briffio hwn yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gymryd rhan yn Wythnos Natur Cymru.

Diolch am eich cefnogaeth. Edrychwn ymlaen at weld mwy o bobl nag erioed yn cymryd rhan yn eich digwyddiadau yn ystod Wythnos Natur Cymru 2024!

**Sean McHugh**
**Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**

# Sut allwch chi helpu




I fod yn rhan o Wythnos Natur Cymru, mae angen i chi drefnu gweithgaredd neu ddigwyddiad y gall pobl gymryd rhan ynddo. Gallai eich grŵp drefnu unrhyw beth: taith natur a sgwrs, digwyddiad garddio blodau gwyllt, prosiect celf, adeiladu cartrefi chwilod, casglu sbwriel, neu unrhyw beth sy'n gysylltiedig â natur!

Mae adnoddau Wythnos Natur Cymru ar-lein am ddim ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'ch digwyddiad neu weithgareddau ar gael i'w lawrlwytho. Byddant yn eich helpu i farchnata eich digwyddiad fel rhan o'r dathliad o fyd natur sydd wrth wraidd Wythnos Natur Cymru.

Mae eich cydlynydd Partneriaeth Natur Leol cyfeillgar a gwybodus yno i'ch cefnogi a'ch annog gyda'ch digwyddiad hefyd a dod â natur i'ch cymuned ar unrhyw adeg o'r flwyddyn nid yn unig yn ystod Wythnos Natur Cymru.

Gyda'ch help chi, gallwn ddathlu natur a lledaenu'r gair am y prosiectau natur gwych y mae eich cymuned, ysgol, elusen neu fusnes yn eu cynnal ar hyd a lled Cymru!







## 1. Eich Adnoddau

Mae'r pecyn briffio hwn yn darparu graffeg cyfryngau cymdeithasol i chi ei chyhoeddi fel postiad, wedi'i ategu gan eich neges unigol.

I lawrlwytho'r adnoddau cyfryngau cymdeithasol hyn, cliciwch y ddolen hon isod.

Lawrlwytho yma

Rydym hefyd wedi creu templed poster i chi ychwanegu eich digwyddiad a'i argraffu. Gweler ein hadran Adnoddau.

Adnoddau

## 2. Cyfryngau Cymdeithasol

Rydym ar y platfformau canlynol:

- Instagram
- Facebook
- Twitter/X


Felly, cadwch lygad amdanom ni ac os yn bosibl dilynwch, rhannwch a hoffwch, byddem yn ddiolchgar iawn.



# Sut allwch chi helpu

## 3. Hashnod #WythnosNatur-Cymru

Byddem yn ddiolchgar hefyd pe gallech ddefnyddio'r hashnod **#WythnosNaturCymru** ar eich postiadau fel y gallwn godi ymwybyddiaeth o Wythnos Natur Cymru ar draws platfformau'r cyfryngau cymdeithasol. Bydd hyn yn ein galluogi hefyd i fonitro nifer y bobl sy'n manteisio ar weithgareddau cyfryngau cymdeithasol Wythnos Natur Cymru a'u heffeithiolrwydd trwy rannu a hoffi.



## 4. Cyfathrebu Canolog

Bydd Wythnos Natur Cymru'n cyhoeddi postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn seiliedig ar ein prif negeseuon ac yn cyfeirio pobl at ein tudalen we lle gallant gael gwybodaeth am eu digwyddiadau lleol.

Bydd hyn yn atgyfnerthu ac yn cynorthwyo eich gweithgarwch hyrwyddo lleol chi. Cofiwch roi gwybod i ni am eich digwyddiadau a byddwn yn gwneud ein gorau i'w rhannu'n ganolog:

## 5. Ychwanegwch Eich Digwyddiad i'n Tudalen We Digwyddiadau

Cysylltwch â ni gyda manylion eich digwyddiad fel y gallwn ei roi ar ein tudalen ddigwyddiadau bwrpasol. Byddwn yn rhannu ac yn rhyngweithio â'ch negeseuon cyfryngau cymdeithasol – cofiwch ddefnyddio'r hashnod **#WythnosNaturCymru**

Mae gennym dudalen we bwrpasol:

**www.biodiversitywales.org.uk/Wythnos-Natur-Cymru**

Bydd eich Partneriaeth Natur Leol yn anfon galwad am ddigwyddiadau i roi'r cyfle i chi gynnwys eich digwyddiad.

# DIOLCH!

Mae Wythnos Natur Cymru yn bosibl diolch i sefydliadau sy'n gyfeillgar i natur sy'n cynnal digwyddiadau a thrwy gyfranogiad Partneriaethau Natur Lleol, cymunedau, ysgolion, busnesau ac unigolion. Mae ar gyfer pawb yng Nghymru.